# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Lle held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Iau, 1af Chwefror, 2024 at 10.00 am**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
|---|---|
| County Councillor Lisa Dymock (Chairman)<br><br>County Councillors: Louise Brown, Emma Bryn, Tomos Davies, Jane Lucas, Maria Stevens, Jackie Strong, Laura Wright, Tudor Thomas,<br><br>Also in attendance County Councillors: Ben Callard, Cabinet Member for Resources, Paul Griffiths, Deputy Leader and Cabinet Member for a Sustainable Economy and Simon Howarth | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau<br>Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc<br>Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle<br>Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog<br>Mark Hand, Pennaeth Llunio Lle, Tai, Priffyrdd a Llifogydd<br>Cath Fallon, Pennaeth Economi a Menter<br>Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant<br>Ian Saunders, Prif Swyddog Gweithredu, BywydMynwy<br>David Jones, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd<br>Huw Owen, Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Iechyd Cyhoeddus)<br>Tyrone Stokes, Rheolwr Cyllid<br>Dave Loder, Rheolwr Cyllid<br>Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid<br>Stacey Jones, Uwch Gyfrifydd<br>Carl Touhig, Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth<br>Craig O'Connor, Pennaeth Cynllunio<br>Deb Hill-Howells, Pennaeth Gwasanaethau Landlord Masnachol ac Integredig |

**APOLOGIES:** Ddim

1. **<u>Datganiadau o Fuddiant</u>**

   Nid oedd unhryw Ddatganiadau o Fuddiant.

2. **<u>Fforwm Agored i'r Cyhoedd.</u>**

   Na.

3. **<u>Cynigion Craffu'r Cyllideb – Craffu ar fandadau'r gyllideb yng nghyswllt cylch gorchwyl y pwyllgor.</u>**

   Cafwyd cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet Ben Callard - cyflwynodd yr adroddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau gyda Mark Hand, Debra Hill-Howells, Paul Griffiths, Jonathan Davies, Carl Touhig, Peter Davies a

Cath Fallon.
**Pwyntiau allweddol a godwyd gan yr Aelodau:**

1. A oes rhagor o wybodaeth am gyfarfodydd y trigolion a gynhelir?
2. A oes diffyg  arian yn ymwneud â meysydd parcio?
3. A allwn gael gwybod a fydd costau gwastraff masnach yn awr yn adennill costau gyda'r cynnydd arfaethedig a sut mae hyn yn effeithio ar ysgolion? Faint o ysgolion sy’n defnyddio contractwyr allanol ar hyn o bryd a sut ydych chi’n meddwl y bydd y newidiadau cenedlaethol arfaethedig ar gyfer ailgylchu’r gweithlu ym mis Ebrill yn effeithio ar y gwasanaethau a’r incwm a gawn?
4. A oes angen i ni roi rhagor o wybodaeth i drigolion am yr hyn y gallant ei ddefnyddio yn lle bagiau plastig, fel bagiau bara a bagiau bwyd plastig? Ac a oes modd asesu effaith hyn?
5. A ydyn ni'n derbyn unrhyw arian parod ar gynnyrch gwastraff gwerthadwy fel rhan o'r broses llosgi gwastraff?
6. A allwn ni gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n gyrru costau cynyddol cludiant ysgol? Sut ydyn ni'n osgoi'r rhain a'u gwneud yn rhatach trwy ddod ag ef yn fewnol?
7. A ydym yn bwriadu trydaneiddio ein gwasanaethau bws? A oes arian wedi'i neilltuo i'w fuddsoddi mewn lleihau carbon ein fflyd cartrefi?
8. A yw awdurdodau lleol eraill yn gwneud yr un peth gyda bagiau gwastraff bwyd?
9. Sut bydd disgyblion ADY yn cael eu heffeithio gan y cynigion cludiant o'r cartref i'r ysgol?
10. Beth fydd sgil-effaith codi tâl am barcio ar y defnydd o feysydd parcio archfarchnadoedd? Pan adeiladwyd archfarchnadoedd, y syniad oedd na fyddent yn cymryd masnach i ffwrdd o drefi. A oes unrhyw faterion cynllunio yno?
11. Pa asedau’r Cyngor sydd o bosibl yn cael eu defnyddio ar gyfer digartrefedd? A oes llety ar gael yng nghartref gofal Severn View?
12. Pam fod pwysau costau ailgylchu wedi cynyddu cymaint?
13. Pam fod yna gynnydd o 10% mewn gwastraff gardd?
14. A allwn ni gael rhagor o wybodaeth am y pwysau costau sy'n gysylltiedig â phremiymau Treth y Cyngor? Pam nad yw'n gost niwtral?
15. A ydym ni wedi gwthio Llywodraeth Cymru yn ddigonol o ran cael cyllid ychwanegol? Pa ymgynghori ychwanegol a gawsom i sicrhau ein bod yn cyrraedd y lefel gyllido gyfartalog yng Nghymru?
16. A ydych yn ymchwilio i unrhyw eiddo arall sydd gan y Cyngor ar gyfer digartrefedd? Beth am ffermydd sirol?
17. A ellir cael datganiad i'r wasg neu hysbysebu fel y bydd pobl yn gwybod y gellir defnyddio bagiau bara fel bagiau gwastraff bwyd?
18. Pam nad oes unrhyw sôn neu ddadansoddiad yn y gyllideb o Briffyrdd?
19. Cafwyd cwynion gan drigolion ynghylch cau canolfannau hamdden yn gynnar ar brynhawn Sul, ac mae pryderon felly am yr effaith ar lesiant trigolion sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau

a fydd nawr yn cael eu cwtogi e.e. y clwb badminton yn Nhrefynwy. Siawns na fydd y graff yn edrych yr un fath y flwyddyn nesaf ag y bydd defnydd yn dod i ben yn naturiol ar ddiwedd y dydd? Oni allem agor yn hirach i gael mwy o bobl i mewn, a chynyddu refeniw yn y broses?

20. A fydd y cynnig i gau Hen Orsaf Tyndyrn a dwy amgueddfa am un diwrnod yr wythnos, ac eithrio Gŵyl y Banc, yn peri dryswch i dwristiaid?
21. Mae goroesiad siopau lleol, yn enwedig yn Nhrefynwy, yn bryder mawr. A fydd taliadau parcio ceir yn effeithio ar nifer yr ymwelwyr a busnesau lleol? Rydym wedi derbyn awgrym gan breswylydd i dynnu'r taliadau o'r prif faes parcio yn Nhrefynwy i gefnogi siopau lleol.
22. Beth fydd yn digwydd i'r bysiau trydan?
23. A allwch egluro nifer y cerbydau sydd i'w newid? A fyddant yn cael eu defnyddio ar gyfer trafnidiaeth gymunedol?
24. Os nad yw cyfleuster gofal Severn View yn addas ar gyfer pobl hŷn, gyda pha hyder y gallwn ddweud ei fod yn addas ar gyfer pobl ddigartref?
25. Costau darpariaeth ar gyfer yr adeilad yng Nghrug – a oedd hynny'n ddibynnol ar werthu Severn View ar gyfer tai?
26. Rydyn ni'n mynd i arbed £400k ar gyfer Gwely a Brecwast a llety i'r digartref, ond bydd angen adnewyddu Severn View. A yw'n dderbyniol y bydd yr holl bobl sy'n ddigartref yn Sir Fynwy yn mynd i un lle?
27. Mae pryderon ynghylch y strategaeth wastraff a'r risg sy'n gysylltiedig ag ymgorffori gwastraff masnach.
28. A yw ceisio gweithredu fel busnes yn gwneud synnwyr fel Cyngor? Oni ddylai'r ffocws fod ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus? – **CAM GWEITHREDU: Dosbarthu'r data ar incwm ffioedd allanol y gofynnodd y Cynghorydd Howarth amdano i'r pwyllgor**
29. Ar gyfer plant ADY, pam na allwn ddod o hyd i gludiant arbenigol a chael gwell pris amdano?
30. A gawn ni esboniad pellach o'r gyllideb sy'n gysylltiedig â benthyca arian i brynu trafnidiaeth? Onid oes risg anferth yn gysylltiedig â hyn?
31. Sylwch os na fydd contractwyr yn cyflwyno tendr am lwybr yna mae rhieni'n disgwyl i'r awdurdod ddarparu cludiant i blant, ac ni allwn arbed £22m heb wneud rhai gostyngiadau.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Mae'r pwyllgor yn cydnabod y pwysau cyllidebol y mae'r Weinyddiaeth yn ceisio ei reoli ac roedd nifer o gwestiynau megis ynghylch y cynnydd mewn gwastraff masnach ac a ydym yn gwybod yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar ein busnesau ledled Sir Fynwy. Roeddem eisiau rhywfaint o sicrwydd ar y cynigion cludiant o'r cartref i'r ysgol ac am sicrhau nad yw'n cael effaith andwyol ar y sawl ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd angen mwy o ddealltwriaeth arnom o ran digartrefedd a'r arbedion a wneir o ran defnyddio cartref gofal Severn View ac a yw'n gyfleuster addas ai peidio. Mae pryder am setliad Llywodraeth Cymru o 2.3% pan mai 3.1% yw'r cyfartaledd. Gobeithiwn y bydd yr Aelod Cabinet yn parhau i wthio am gyllid ychwanegol. Roedd rhai cwestiynau ynghylch premiymau Treth y Cyngor ar gyfer Ail Gartrefi a phryder bod diffyg gwybodaeth am briffyrdd. Mae pryderon ynghylch cau canolfannau hamdden yn gynnar ar ddydd Sul a'r effaith ar iechyd a lles, yn ogystal â'r dryswch a'r effaith ar dwristiaeth a achosir gan y bwriad i gau. Trafodwyd hefyd effaith taliadau parcio ceir ar nifer yr ymwelwyr mewn trefi.

## 4. Mesurau Rheoli Cŵn Gorchymyn Diogelu Mannau Agored i'r Cyhoedd – Craffu ar yr adroddiad diweddaraf.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Paul Griffiths yr adroddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau gyda Huw Owen a David Jones.

**Pwyntiau allweddol a godwyd gan yr Aelodau:**

1. Pam fod nifer isel o ymatebion gan glybiau chwaraeon?

2. Beth yw ymarferoldeb gorfodi, yn enwedig lle nad yw mannau chwarae wedi'u ffensio?
3. A allwn ni asesu’r effeithiolrwydd ymhen 6/12 mis a gofyn am adborth gan y cyhoedd ynglŷn â sut mae’n mynd?
4. Mae angen cyrraedd safon uchel ar gyfer codi ymwybyddiaeth: mae rhai perchnogion cŵn yn anhapus iawn nad ydynt yn gallu rhedeg eu cŵn ar y cae ym Mharc Bailey, er enghraifft.
5. Cymharwch â mesurau gyrru gwrthgymdeithasol, lle byddai car patrôl yn ymweld â mannau problemus – beth yw'r opsiynau gorfodi cyfatebol yn yr achos hwn?
6. A allai lleoliad yr hen bwll nofio ym Mharc Bailey fod yn ardal i gŵn rhedeg yn rhydd?
7. A allwch chi'r pwynt am waharddiadau ar dir ysgol, a rhai eithriadau?
8. Ai canlyniad y mesurau hyn fydd cynnydd mewn baw cŵn ar balmentydd? A fydd swyddogion gorfodi yn gallu edrych ar hynny, ac a oes dirwy am hynny?
9. Pa ddulliau fydd yn cael eu defnyddio i hysbysu/addysgu'r cyhoedd am y GDMC a sut mae'n effeithio ar fannau gwyrdd?
10. Cawsom yr argraff o’r blaen na fyddai’r cerdyn coch yn cael ei ddefnyddio gan fod gormod o ddeialog arno – byddai’r byrddau’n fwy effeithiol. A oes gennym ni fwy o syniad am hynny?
11. A fydd y gorchymyn yn cael ei argraffu ar yr arwyddion – ei fod yn ‘ardal ddynodedig ac ati?
12. Mae gan rai awdurdodau beiriannau gwerthu bagiau cŵn, sy'n rhad iawn – a ystyriwyd unrhyw beth fel hyn?
13. O ran gwybodaeth, sut/â phwy mae aelodau neu drigolion yn cysylltu?
14. A fyddai’r Cyngor Tref yn gallu defnyddio rhai o'r swyddogion gorfodi?
15. A allwch egluro'r ardaloedd gwaharddedig o ran Tiroedd Castell Cil-y-coed?
16. Yng Nghil-y-coed, onid yw’r ardaloedd gwaharddedig yn anghyson â’r llwybrau teithio llesol e.e. y llwybr o Deepweir i’r pentref, ac yn ôl o flaen y clwb criced?
17. Oni fydd hyn yn annog pobl i beidio â cherdded gyda'u cŵn neu blant i'r ysgol ac yn ôl?
18. Os oes palmant tarmac, oni fydd pobl yn naturiol yn cymryd yn ganiataol y gallant gerdded arno gyda'u ci?
19. A fydd adran Cwestiynau Cyffredin ar y wefan pan gaiff ei chyflwyno?
20. Mae angen i ni fod yn ymwybodol o’r hyn y mae cymunedau’n ei wario e.e. Mae Gilwern yn gwario £14-15k ar finiau cŵn, ond mae defnyddwyr cŵn o ardaloedd eraill yn dod i’r gymuned oherwydd na fu digon o orfodi, felly mae gwaith gyda chynghorau tref a chymuned yn hollbwysig.
21. A allwn ni weithio gyda pherchnogion cŵn i ddod o hyd i ardaloedd i'w defnyddio - a allent ffurfio sefydliad neu grŵp defnyddwyr i gael eu hardal eu hunain wedi'i dynodi ar gyfer mynd â chŵn am dro ac ymarfer corff?

22. Mae angen i ni gydnabod pwysigrwydd y Ddeddf Cŵn Peryglus, gan mai rhai o'r teimladau gan gymunedau ynghylch cŵn yn dod i gaeau chwarae, er enghraifft, yw y bu achosion o gŵn mawr yn dychryn plant.
23. Yn Chippenham Mead, a fydd y marciau ar yr arwyddion yn dangos lle y gellir tynnu cŵn oddi ar dennyn?

**Crynodeb y Cadeirydd:**
Mae hwn yn bapur dadleuol ond fe'i croesawyd gan y pwyllgor heddiw. Mae arnom ni i gyd eisiau mannau sy'n ddiogel i bobl a chŵn, ac rwy'n meddwl bod y weinyddiaeth wedi cymryd agwedd synhwyrol ac wedi clywed adborth y trigolion yn yr ymgynghoriad. Gwnaethom ofyn iddynt roi sicrwydd i ni sut y byddant yn gorfodi'r PSPO hwn, a'r heriau o'i orfodi ar fannau chwarae agored. Mae ymwybyddiaeth ac addysg yn hollbwysig i lwyddiant y mesur hwn, a bydd gan Cynghorau Tref a Chymuned rôl bwysig, yn ogystal â ninnau fel Cynghorwyr Sir, yn ei reoli yn y dyfodol. Mae angen i ni hefyd ystyried achosion eithriadol, megis cŵn therapi mewn ysgolion ac effeithiau'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ar lendid a hylendid palmentydd, ac mae angen inni wybod sut y gall y cyhoedd ddarparu gwybodaeth. Diolch i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion am gyflwyno'r adroddiad hwn. Roedd llawer o gwestiynau ac rydym yn cefnogi hyn yn llawn. Efallai bod rhai ardaloedd sy'n anodd, ond os byddwn yn addysgu'r trigolion ac yn gwneud y parthau'n glir, bydd yn fuddiol iawn i'r Sir yn gyffredinol.
O ran Argymhelliad 2.3, rydym yn nodi y bydd dyraniad costau yn cael ei ystyried yn ystod yr adolygiad pwysau cyfalaf a fydd yn mynd gerbron y Cyngor ar 29ain Chwefror.

5. **Blaenraglen Gwaith a Rhestr Camau Gweithredu y Pwyllgor Craffu Lle.**

Bydd Cynllun Adnau'r CDLlA yn symud yn ôl o gyfarfod 10fed Ebrill i 23ain Mai, cyn dyddiad Cyngor ym mis Mehefin.

6. **Cynllunydd Gwaith y Cabinet a'r Cyngor.**

7. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd y cofnodion - cynigwyd gan y Cynghorydd Thomas ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Strong.

8. **Cyfarfod Nesaf: Dydd Mercher 6 Mawrth 2024 am 10.00am.**

The meeting ended at **1.07 pm**